# Gwerthuso Rhaglen Feithrin Pori Drwy Stori (Llafaredd) 2018-19 – Crynodeb Gweithredol

## Y rhaglen

Rhaglen ddwyieithog ydy Rhaglen Feithrin Pori Drwy Stori (Llafaredd) (RhFPDS) sydd wedi'i dylunio i gefnogi deilliannau llafaredd ac ymgysylltiad rhieni â dysgu ar gyfer plant rhwng 3-4 oed yng Nghymru, yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cael ei chyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau i blant yn ystod eu dau dymor olaf yn y Feithrinfa. Mae RhFPDS yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafaredd plant trwy rannu rhigymau a chaneuon, a thrwy ddarllen er pleser a rhannu llyfrau. Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar ddau becyn o adnoddau, y naill a'r llall wedi'u dylunio i'w defnyddio yn yr ysgol/ lleoliad ac yn y cartref dros gyfnod o hanner tymor, fwy neu lai. Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru sy'n ariannu RhFPDS.

Mae llafaredd yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru'n cynnwys 'siarad', 'gwrando', 'cydweithio a thrafod'. Mae hefyd yn cynnwys sgiliau fel datblygu hyder a thalu sylw, ac yn cysylltu'n agos â datblygiad cynnar lleferydd ac iaith.

Nodau RhFPDS ydy:

- gwella deilliannau cysylltiedig â llafaredd i blant;
- cynyddu ymgysylltiad rhieni a gofalwyr â dysg eu plentyn, yn benodol o ran gweithgareddau sy'n cefnogi deilliannau llafaredd;
- cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o sut y gallan nhw wella deilliannau llafaredd i blant, a'r arfer sy'n gysylltiedig â hyn, yn enwedig trwy ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.




Nodwyd **deilliannau llafaredd penodol plant** trwy dynnu ar dystiolaeth ymchwil a thrwy edrych yn fanwl ar y deilliannau yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Roedd y rhain yn cynnwys: cynyddu gallu plant i adnabod rhythm ac odl; cynyddu eu hyder i ymuno yn y gweithgareddau ac i siarad a mynegi eu hunain; a chynyddu gallu plant i wrando ac ymuno â rhigymau, caneuon, llyfrau a straeon. Nod RhFPDS hefyd ydy cynyddu faint o amser y mae'r plant yn ei dreulio'n rhannu rhigymau, caneuon, llyfrau a straeon, a'u mwynhad o'r gweithgareddau hyn, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd y nodau a oedd yn ymwneud â **chael y rhieni a gofalwyr i ymgysylltu â dysg eu plentyn** yn canolbwyntio ar gynyddu'r cyswllt rhwng y cartref a'r Feithrinfa a chefnogi cysylltiad cryf rhwng y cartref a'r ysgol/lleoliad. Roedden nhw hefyd yn cynnwys annog ymddygiadau yr oedd yn hysbys eu bod yn cefnogi deilliannau llafaredd (e.e. rhannu rhigymau, caneuon, llyfrau a straeon yn amlach; ailddarllen yr un llyfrau; siarad am lyfrau) a chynyddu mwynhad o'r gweithgareddau hyn.

## Y Gwerthusiad

Cymerodd tua 10,000 o blant ran yn RhFPDS yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn 2018-19. Bu Iaith a Wavehill yn gwerthuso'r rhaglen rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2019. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn **https://www.booktrust.org.uk/globalassets/resources/research/btc-pori-drwy-stori-nursery-oracy-evaluation-november-2019-final.pdf**

Seiliwyd y gwerthusiad ar ddulliau cymysg o weithredu ac ymgysylltwyd â rhieni, plant, ymarferwyr, staff ALl a Chonsortia. Defnyddiwyd arolwg rhieni a gofalwyr cyn ac ar ôl gyda rhieni a gofalwyr plant a oedd wedi cymryd rhan a rhai nad oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, er mwyn sefydlu grŵp cymharu. Hefyd, gofynnwyd i ysgolion a lleoliadau ddarparu data ffurfiol ar lafaredd disgyblion.

Bu ymarferwyr a oedd yn cyflwyno'r rhaglen yn cymryd rhan mewn cyfweliadau dros y ffôn ac ymweliadau safle, a gynhaliwyd gan y tîm gwerthuso. Roedd ymweliadau safle'n cynnwys cyfweliadau/ grwpiau ffocws â rhieni, trafod â disgyblion, arsylwi ar RhFPDS ar waith a thrafod â thimau arwain.

I gael gwybod mwy am raglen Pori Drwy Stori ewch i **www.booktrust.org.uk/poridrwystori**.

I drafod rhaglen Pori Drwy Stori neu i ddysgu mwy am waith BookTrust yng Nghymru, cysylltwch â **booktrustcymru@booktrust.org.uk**.


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Gwerthusiad: Darganfyddiadau allweddol

## Deilliannau llafaredd

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod 'RhFPDS yn cael rhywfaint o ddylanwad positif ar amrywiaeth eang o sgiliau i blant'. Yn gyffredinol, roedd yna welliannau ystadegol arwyddocaol i ddeilliannau plant yn ymwneud â llafaredd yn ystod cyfnod y rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwelliannau yn ystod cyfnod y rhaglen i blant a oedd yn cymryd rhan (yn enwedig o ran iaith fynegiannol plant).
- Cynnydd mewn sgiliau iaith fynegiannol plant ac mewn adnabod rhigymau, yn benodol gallu plant i fynegi eu hunain yn glir wrth siarad am lyfrau, adnabod rhythm ac odl, gallu siarad a mynegi eu hunain yn well, a gwybodaeth o wahanol rigymau a/neu ganeuon.

Nododd darganfyddiadau o'r cyfweliadau ag ymarferwyr, ac o'u harolygon:

- Effeithiau positif i blant, gan gynnwys mwy o hyder, dangos sgiliau gwrando da trwy ymuno â phethau, nodi'r geiriau a fyddai'n dod nesaf mewn rhigymau, a modelu rhannu'r rhigymau i blant eraill.
- Mwy o ymwybyddiaeth ymysg rhieni o bwysigrwydd rhigymau a llyfrau a straeon ar gyfer datblygu llafaredd o ganlyniad i adnoddau RhFPDS.
- Cynnydd yn nealltwriaeth ymarferwyr o rôl rhigymau a chaneuon mewn datblygiad llafaredd **plant.**

Roedd y canlyniadau o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau'n awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn teimlo bod adnoddau RhFPDS wedi bod yn ddefnyddiol wrth helpu eu plant i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando, wrth gynyddu'r rhyngweithio â phlant (gan gynnwys brodyr a chwiorydd), wrth gynyddu'r mwynhad o ddarllen ac wrth gefnogi dysgu yn y cartref.

Yn ôl pob golwg, mae deilliannau llafaredd wedi bod yn gryfach i fechgyn ac i blant nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (PYaD). Gellid gwneud mwy o waith i nodi a rhannu arfer sy'n gallu cefnogi llafaredd bechgyn ac i nodi sut i wella canlyniadau i blant PYaD.

Hefyd, nododd ymarferwyr y gwelliannau penodol a welwyd mewn dau grŵp penodol: disgyblion sydd â'r Gymraeg/y Saesneg yn iaith ychwanegol (CIY/SIY) a phlant ag anawsterau lleferydd ac iaith e.e. trwy gael mwy o hyder i ymuno â'r rhigymau. D.S. Roedd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai teuluoedd CIY/SIY i allu defnyddio'r rhaglen e.e. trwy gyfieithwyr.

Dywedodd dros hanner yr ymarferwyr (58%) eu bod yn defnyddio'r rhaglen yn benodol i gefnogi deilliannau llafaredd. Mae'r gwerthuswyr yn argymell bod ymarferwyr yn cael mwy o gefnogaeth i ymwneud mwy â ffocws RhFPDS ar lafaredd, ac i gyfleu pwysigrwydd llafaredd, rhannu rhigymau a chaneuon, rhannu llyfrau a darllen er pleser i rieni.

## Cael rhieni i ymgysylltu'n fwy â dysg eu plant

Dangosodd y gwerthusiad gynnydd yn hyn o beth ar draws y ffynonellau data. Dangosodd yr ymatebion i'r arolwg rhieni a gofalwyr rai arwyddion o gynnydd, er bod y darlun yn gymysg o ran rhai deilliannau. Dyma'r darganfyddiadau allweddol o ran ymgysylltiad rhieni a gofalwyr:

- Roedd yna gynnydd mewn rhai ymddygiadau rhieni a gofalwyr: darllen yr un llyfr drosodd a throsodd, siarad am y llyfrau'n amlach, darllen llyfrau a rhannu rhigymau yn y Gymraeg yn amlach, a darllen llyfr am hwyl.
- Roedd rhieni a gofalwyr yn priodoli'r cynnydd hwn yn aml i Raglen Feithrin Pori Drwy Stori. Yn ôl rhwng 27% a 48% ohonyn nhw, roedden nhw'n gwneud y pethau hyn yn amlach ers cymryd rhan yn RhFPDS, ac roedd mwy na 90% o'r rhain yn priodoli o leiaf rhywfaint o'r cynnydd hwn i RhFPDS.
- Roedd ymarferwyr yn teimlo bod y rhaglen wedi cael effaith o ran ymgysylltiad rhieni a gofalwyr ac o ran datblygu cipolwg ar yr amgylchedd dysgu yn y cartref:

- Yn ôl 75% o ymarferwyr a gymerodd ran yn y cyfweliadau ffôn, roedd RhFPDS wedi cael effaith bositif ar y cyfathrebu â'r cartref

- Dywedodd 67% fod y rhaglen wedi creu cyfle i siarad â rhieni a gofalwyr am bwysigrwydd siarad a gwrando gyda phlant

- Dywedodd 92% fod plant wedi siarad â nhw am ddefnyddio adnoddau RhFPDS yn y cartref

- Roedd y rhaglen wedi llwyddo i gefnogi ysgolion a lleoliadau i ddatblygu ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys y rheini lle nad oedd y rhaglen eto wedi'i sefydlu.
- Roedd ymarferwyr wedi datblygu ffyrdd newydd, fwyfwy effeithiol o gyfathrebu â rhieni a gofalwyr ac wedi datblygu cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol/ lleoliad, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac apiau ystafell ddosbarth.
- Roedd cyfathrebu'n gyson a pharhaus yn allweddol i gael rhieni a gofalwyr i ymgysylltu: roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn siarad yn aml ag ymarferwyr am RhFPDS yn fwy tebygol o nodi bod yna gynnydd o ran ymgysylltiad rhieni.
- Roedd y rhaglen wedi galluogi cyfathrebu dwyffordd rhwng y cartref a'r ysgol/lleoliad, ac yn gymorth i ymarferwyr gael cipolwg ar amgylcheddau dysgu cartrefi.
- Roedd yna dystiolaeth o ymgysylltiad teuluol ehangach e.e. brodyr a chwiorydd a theidiau a neiniau.

## Dwyieithrwydd a'r Gymraeg

Roedd y ffaith bod y rhaglen yn ddwyieithog yn cefnogi datblygu sgiliau iaith Gymraeg, yn enwedig i blant nad ydyn nhw o gefndir Cymraeg (mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg). Roedd yn cefnogi ymarferwyr nad oedden nhw'n orhyderus yn eu Cymraeg, yn ogystal â rhieni a gofalwyr a phlant.

Yn ôl ymarferwyr, roedd yna gynnydd yn y defnydd o ganeuon, rhigymau a llyfrau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Gellid annog rhieni a gofalwyr i ddefnyddio mwy ar recordiadau sain/ ffilmiau Cymraeg ar wefan RhFPDS.

## Model rhaglen Pori Drwy Stori

Roedd model rhaglen Pori Drwy Stori yn cefnogi deilliannau'n effeithiol: adnoddau o ansawdd uchel i'w defnyddio dros gyfnod o amser yn yr ysgol/ lleoliad ac yn y cartref; strwythur wedi'i argymell ar gyfer defnyddio'r rhaglen gyda hyblygrwydd i ymarferwyr ei addasu i'w hanghenion lleol; cynnig 'i bawb' h.y. adnoddau ar gyfer pob disgybl cymwys yn yr ysgol/ lleoliad.

Roedd ymarferwyr yn teimlo bod yr adnoddau rhad ac am ddim yn annog rhieni i dreulio amser yn eu defnyddio gyda'u plant yn y cartref. Mewn rhai lleoliadau, roedd yr adnoddau wedi ysbrydoli ymarferwyr i ailystyried sut yr oedden nhw'n cyflwyno llythrennedd ac iaith yn eu cwricwlwm.

Roedd y rhaglen yn fwy effeithiol pan roedd y dull o weithredu yr oedd yr ysgolion a lleoliadau wedi'i fabwysiadu yn strwythuredig ac wedi'i gynllunio. Gallai hyn fod ar lefel ysgol (e.e. yn cysylltu â'r Cynllun Datblygu Ysgol) neu ar lefel cynllunio Cyfnod Sylfaen a/neu ystafell ddosbarth.

## Ansawdd y rhaglen

Cytunodd bron pob un o'r rhieni a gofalwyr a fu'n rhan o'r arolwg (96%) fod yr adnoddau'n glir ac yn hawdd i'w defnyddio; roedd 94% yn meddwl eu bod nhw 'yn hwyl ac yn ddiddorol i'm plentyn'; a dywedodd 93% fod eu plant wedi mwynhau defnyddio'r adnoddau.

Yn ôl ymarferwyr, roedd y sesiynau hyfforddi a rhannu gwybodaeth yn ddefnyddiol wrth eu helpu nhw i baratoi ar gyfer y rhaglen; roedd hyn yn golygu eu bod nhw wedi gallu defnyddio adnoddau RhFPDS yn syth pan ddosbarthwyd nhw i'r ysgolion a'r lleoliadau. Roedd y rhai a fynychodd y sesiynau'n tueddu i fod wedi ymgysylltu mwy â'r rhaglen. Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr yn meddwl bod cefnogaeth BookTrust Cymru trwy e-bost yn dda neu'n dda iawn. Mae'r gwerthuswyr yn argymell bod BookTrust Cymru'n edrych ar y posibilrwydd o gynnig hyfforddiant ar ffurf gweminar/ ar-lein er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch.



## Cyflwyno effeithiol: argymhellion allweddol ar gyfer ymarferwyr Meithrin

Gwnaeth y gwerthuswyr nifer o argymhellion ar gyfer ymarferwyr sy'n cyflwyno RhFPDS:

- Cyflwyno'r rhaglen i rieni cyn ei dechrau â'r plant, a chyflwyno'r rhigymau a'r llyfrau i blant mewn ysgol/lleoliad cyn mynd â'r adnoddau gartref.
- Gwneud i rieni/ gofalwyr deimlo'u bod nhw'n cael eu cynnwys, a'u helpu nhw i ddeall eu rôl yn y rhaglen. Eu hannog nhw i gynnwys aelodau eraill o'r teulu. Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod am ddeunyddiau ar-lein i gefnogi'r rhaglen.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu'n gyson â rhieni a gofalwyrr trwy gydol y rhaglen e.e. wyneb yn wyneb wrth ollwng/casglu'r plentyn neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Annog rhieni a gofalwyr i siarad ag ymarferwyr ynglŷn â'u defnydd o adnoddau RhFPDS yn y cartref fel bod trosglwyddo gwybodaeth yn gweithio ddwy ffordd h.y. ysgol-cartref a chartref-ysgol.
- Targedu gweithgareddau ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i gefnogi rhieni plant PYaD.

Mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod defnyddio adnoddau'r rhaglen am gyfnod hirach yn cefnogi deilliannau llafaredd yn well, tra bo'u defnyddio nhw am gyfnod byrrach yn fwy tebygol o gadw ymgysylltiad y rhieni. Mae'r gwerthuswyr yn argymell bod yr adnoddau'n cael eu cyflwyno ar wahân, gydag amser i ganolbwyntio'n llawn ar bob set, ond bod ysgolion/ lleoliadau'n eu defnyddio dros gyfnod mwy cryno er mwyn cadw momentwm ymgysylltiad rhieni a gofalwyr.

## Cyflwyno effeithiol: argymhellion allweddol ar gyfer lleoliadau ac ysgolion

Mae'r gwerthuswyr yn argymell bod ysgolion a lleoliadau yn:

- Cynnwys RhFPDS yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol/Lleoliad.
- Pwysleisio'r cyfleoedd i fapio RhFPDS i ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen a thargedau llafaredd eraill.
- Cynllunio gweithgareddau Cyfnod Sylfaen ehangach o gwmpas adnoddau RhFPDS i ymestyn ei heffaith, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth wedi'u cysylltu â rhigymau a llyfrau.

## Argymhellion allweddol eraill ar gyfer BookTrust Cymru

- Archwilio opsiynau wedi'u seilio ar y we ar gyfer sesiynau hyfforddi a rhannu gwybodaeth.
- Darparu canllawiau a chefnogaeth ychwanegol i alluogi ymarferwyr i ymwneud mwy fyth â ffocws y rhaglen ar lafaredd, ac i rannu'r negeseuon hyn â rhieni a gofalwyr, yn enwedig o ran darllen er pleser a rhannu'r llyfrau darllen gyda'i gilydd.
- Cefnogi ymarferwyr i roi cynnig ar ddulliau newydd o weithredu yn yr ystafell ddosbarth wedi'u seilio ar RhFPDS, gan gynnwys i gefnogi cynllunio cwricwlwm, a thrwy rannu arferion da.

## Darganfyddiadau allweddol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

Mae'r gwerthusiad wedi dod i'r casgliad bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan ymarferwyr yn ffafriol ac yn werthfawrogol tu hwnt o RhFPDS. Ym marn y mwyafrif llethol o'r ymarferwyr, roedd yr adnoddau'n addas iawn i ddiddordebau'r plant ac yn addas iawn i'w defnyddio yn y cartref a'r ysgol. Roedd y rhaglen yn cefnogi amrywiaeth eang o sgiliau (gan gynnwys datblygu'r iaith Gymraeg) ac wedi helpu plant i sylweddoli eu bod nhw'n gallu dysgu gartref yn ogystal ag yn yr ysgol.

**Daw adroddiad y gwerthuswyr i'r casgliad hwn: 'Mae'r dystiolaeth bositif a ddarparwyd gan yr ymarferwyr o effaith y rhaglen yn cefnogi'r farn bod y rhaglen hon o werth mawr i'r rhai sy'n cymryd rhan ac, o'r herwydd, fe ddylai barhau.'**

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen